O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1409 (Cy.146)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Diwygir Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 1 Awst 2008 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio, sy'n gosod yr hyn y dylid ei addysgu i ddisgyblion a thargedau cyrhaeddiad ar eu cyfer. Nodir manylion ohonynt mewn deuddeg dogfen a elwir:

"Addysg gorfforol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Dylunio a thechnoleg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru";

"Saesneg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"; a

"Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru".

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gosod trefniadau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig fesul cam.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1409 (Cy.146)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008

Gwnaed *30 Mai 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *2 Mehefin 2008*

Yn dod i rym 1 Awst 2008 ac eithrio'r hyn a ddarperir gan erthyglau4(1), 5(1), 6(1), 7(1), 8(1), 9(1), 10(1), 11(1), 12(1), 13(1), 14(1) a 15(1) a (2)

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 108(3)(a) a (b), (5) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**) ac ar ôl gwneud y trefniadau hynny ar gyfer ymgynghori y maent o'r farn eu bod yn briodol yn unol ag adran 117 o Ddeddf Addysg 2002, yn gwneud y gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008 ac yn ddarostyngedig i erthyglau 4(1), 5(1), 6(1), 7(1), 8(1), 9(1), 10(1), 11(1), 12(1), 13(1), 14(1) a 15(1) isod, daw i rym ar 1 Awst 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "y ddogfen addysg gorfforol" *("the physical education document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Addysg gorfforol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**1**);

ystyr "y ddogfen celf a dylunio" *("the art and design document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**2**);

ystyr "y ddogfen dylunio a thechnoleg" *("the design and technology document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Dylunio a thechnoleg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**3**);

ystyr "y ddogfen ddaearyddiaeth" *("the geography document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**4**);

ystyr "y ddogfen fathemateg" *("the mathematics document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**5**);

ystyr "y ddogfen gerddoriaeth" *("the music document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**6**);

ystyr "y ddogfen Gymraeg" *("the Welsh document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**7**);

ystyr "y ddogfen hanes" *("the history document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**8**);

ystyr "y ddogfen ieithoedd tramor modern" *("the modern foreign language document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**9**);

(**1**) ISBN Rhif 9780750444279.
(**2**) ISBN Rhif 9880750444255.
(**3**) ISBN Rhif 9780750444217.
(**4**) ISBN Rhif 9780750444248.
(**5**) ISBN Rhif 9780750444194.
(**6**) ISBN Rhif 9780750444262.
(**7**) ISBN Rhif 9780750444187.
(**8**) ISBN Rhif 9780750444231.
(**9**) ISBN Rhif 9780750444286.

ystyr "y ddogfen Saesneg" *("the English document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Saesneg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**1**);

ystyr "y ddogfen technoleg gwybodaeth a chyfathrebu" *("the information and communication technology document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**2**);

ystyr "y ddogfen wyddoniaeth" *("the science document")* yw'r ddogfen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2008 sy'n dwyn y teitl "Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru"(**3**); ac

mae cyfeiriadau at y cyfnodau allweddol cyntaf, yr ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol a'r pedwerydd cyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103 o Ddeddf Addysg 2002.

Dirymu a darpariaethau trosiannol

3.—(1) Dirymir y Gorchmynion a restrir yn yr Atodlen ar 1 Awst 2008.

(2) Er gwaethaf paragraff (1) mae'r darpariaethau yn y Gorchmynion a restrir yn yr Atodlen yn parhau yn gymwys i ddisgyblion yn yr ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol a'r pedwerydd cyfnod allweddol hyd nes y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt.

Celf a dylunio

4.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen celf a dylunio i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen celf a dylunio yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran celf a dylunio.

(**1**) ISBN Rhif 9780750444170.
(**2**) ISBN Rhif 9780750444224.
(**3**) ISBN Rhif 9780750444200.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen celf a dylunio (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Dylunio a thechnoleg

5.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen dylunio a thechnoleg i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen dylunio a thechnoleg yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran dylunio a thechnoleg.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen dylunio a thechnoleg (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Saesneg

6.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen Saesneg i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol;

(c) 1 Awst 2010 o ran disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(ch) 1 Awst 2011 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y pedwerydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen Saesneg yn cael effaith at ddibenion pennu'r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran Saesneg.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen Saesneg (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Daearyddiaeth

7.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen ddaearyddiaeth i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen ddaearyddiaeth yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran daearyddiaeth.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen ddaearyddiaeth (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Hanes

8.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen hanes i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen hanes yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran hanes.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen hanes (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

9.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Mathemateg

10.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen fathemateg i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol;

(c) 1 Awst 2010 o ran disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(ch) 1 Awst 2011 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y pedwerydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen fathemateg yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran mathemateg.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen fathemateg (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Ieithoedd tramor modern

11.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen ieithoedd tramor modern i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen ieithoedd tramor modern yn cael effaith at ddibenion pennu'r

targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran ieithoedd tramor modern.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen ieithoedd tramor modern (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Cerddoriaeth

12.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen gerddoriaeth i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen gerddoriaeth yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran cerddoriaeth.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen gerddoriaeth (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Addysg gorfforol

13.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen addysg gorfforol i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol, yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol ac ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(c) 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y pedwerydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen addysg gorfforol yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran addysg gorfforol.

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen addysg gorfforol (sy'n

egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Gwyddoniaeth

14.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r ddogfen wyddoniaeth i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol, yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol ac yn y pedwerydd cyfnod allweddol; a

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol.

(2) Y darpariaethau ynghylch y targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen wyddoniaeth yn cael effaith at ddibenion pennu'r targed cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran gwyddoniaeth

(3) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen wyddoniaeth (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Cymraeg

15.—(1) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r rhan honno o'r ddogfen Gymraeg sy'n dwyn y teitl "Cymraeg" i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol ac yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol;

(c) 1 Awst 2010 o ran disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(ch) 1 Awst 2011 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y pedwerydd cyfnod allweddol.

(2) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r rhan honno o'r ddogfen Gymraeg sy'n dwyn y teitl "Cymraeg ail iaith" i rym ar—

(a) 1 Awst 2008 o ran disgyblion yn nhair blynedd gyntaf yr ail gyfnod allweddol ac yn nwy flynedd gyntaf y trydydd cyfnod allweddol;

(b) 1 Awst 2009 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn yr ail gyfnod allweddol, yn nhrydedd flwyddyn y trydydd cyfnod allweddol ac ym mlwyddyn gyntaf y pedwerydd cyfnod allweddol; ac

(c) 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y pedwerydd cyfnod allweddol.

(3) Y darpariaethau ynghylch targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a osodir yn y ddogfen Gymraeg yn cael effaith at ddibenion pennu'r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio o ran Cymraeg.

(4) Nid yw'r enghreifftiau a argreffir mewn llythrennau italig yn y ddogfen Gymraeg (sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

30 Mai 2008

YR ATODLEN

(Erthygl 3)

Gorchmynion a ddirymir

1. At ddibenion erthygl 3(1) caiff y Gorchmynion canlynol eu dirymu —

(a) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Addysg Gorfforol) (Cymru) 2000(**1**);

(b) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Gwyddoniaeth) (Cymru) 2000(**2**);

(c) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Mathemateg) (Cymru) 2000(**3**);

(ch) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cymraeg) 2000(**4**);

(d) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Celf) (Cymru) 2000(**5**);

(dd) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Saesneg) (Cymru) 2000(**6**);

(e) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Daearyddiaeth) (Cymru) 2000(**7**);

(f) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Hanes) (Cymru) 2000(**8**);

(g) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a

---

(**1**) 2000/1098 (Cy.76).
(**2**) 2000/1099 (Cy.77).
(**3**) 2000/1100 (Cy.78).
(**4**) 2000/1101 (Cy.79).
(**5**) 2000/1153 (Cy.84).
(**6**) 2000/1154 (Cy.85).
(**7**) 2000/1155 (Cy.86).
(**8**) 2000/1156 (Cy.87).

Rhaglenni Astudio mewn Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000(**1**);

(ff) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cerddoriaeth) (Cymru) 2000(**2**); ac

(ng) Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000(**3**).

(**1**) 2000/1157 (Cy.88).
(**2**) 2000/1158 (Cy.89).
(**3**) 2000/1159 (Cy.90).